AGGCC
CSSIW

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales





# Trosolwg Y Prif Arolygydd



## Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol yng Nghymru

2006-2007



Mae'r adroddiadau hyn yn cyflawni'r dyletswyddau a nodwyd yn Adran 142 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003

G/377/07-08
ISBN 978 0 7504 4344 9

Ionawr
CMK-22-11-025

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2008

# RHAGAIR



Ar 1 Ebrill 2007, cyfunwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a'u priod swyddogaethau a phwerau i ffurfio Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae'r Adroddiad Blynyddol AGGCC hwn ar gyfer 2006-07 yn cyfuno adroddiadau'r arolygiaethau ASGC ac AGCC blaenorol mewn dwy ddogfen ar wahân, ynghyd â'm trosolwg cynhwysfawr i o'u swyddogaethau a'u canfyddiadau unigol.

Mae AGGCC yn darparu gwasanaeth rheoleiddio ac arolygu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ein nod yw cefnogi'r broses o wella gofal, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy godi safonau, gwella ansawdd gwasanaethau a hyrwyddo arfer gorau drwy waith rheoleiddio, arolygu a datblygu.

Mae'r arolygiaeth newydd yn gweithredu o'r un lleoliadau ledled Cymru ag yr oedd ei rhagflaenwyr.

Rob Pickford



Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

# TROSOLWG

Mae 2006-07 wedi bod yn flwyddyn o gynnydd. Cafwyd gwelliannau, a chroesewir y rhain. Fodd bynnag, mae ansawdd rhai gwasanaethau yn parhau i fod yn annerbyniol o anghyson.

Mae perchenogaeth gryfach bellach o'r agenda gofal cymdeithasol a gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei wneud. Mae rhan helaeth o'r fframwaith ar gyfer ymagwedd gydlynol a strwythuredig at ofal cymdeithasol yng Nghymru wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth, yn awr ac yn y dyfodol, yn gallu dibynnu ar wasanaethau sy'n ddiogel, yn amserol ac o safon gyson uchel. Mae disgwyliadau clir bod yn rhaid i wasanaethau hyrwyddo urddas a rhoi rheolaeth i ddinasyddion dros y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio, a'u bod yn eu galluogi i gynnal eu hannibyniaeth am gyfnod hwy.

Y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu oedd blwyddyn weithredu olaf y ddwy Arolygiaeth ar wahân, sef Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC). Mae'r Adroddiad hwn yn cynnwys adroddiadau ar wahân ar waith y ddau sefydliad. Mae hyn wedi fy ngalluogi i, fel Prif Arolygydd Arolygiaeth newydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, i ddechrau llunio un safbwynt, am y tro cyntaf, am wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

## Gwella gwasanaethau

Mae AGCC yn adrodd bod perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi parhau i wella. Dangosir hyn gan ganfyddiadau adolygiadau cadarnhaol mewn gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant, mewn cydadolygiadau a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mewn gwerthusiadau perfformiad.

Adroddodd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eu bod yn fodlon arnynt ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw pawb o'r un farn o hyd, a cheir amrywiad sylweddol ledled Cymru. Er bod dau awdurdod lleol, sef Caerdydd a Blaenau Gwent, wedi gwella digon i alluogi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r protocol ar gyfer ymdrin â phryderon difrifol, parhawyd i ddefnyddio'r protocol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle yr oedd gwasanaethau i blant yn achos pryder difrifol.

Yn yr un modd, mae ASGC yn nodi yn gyffredinol, bod y fframwaith rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol wedi galluogi llawer o ddarparwyr i wella eu safonau, ac mae'r arolygiaeth wedi adrodd am welliannau ar draws ystod gyfan y gwasanaethau a reoleiddir. Unwaith eto, mae ansawdd gofal dydd i blant ifanc yn parhau i fod yn uchel a gall darparwyr ymfalchïo yn y safonau y maent wedi eu cyflawni. Mae gwasanaethau gofal cartref yn parhau i wella, gyda darparwyr yn dod yn fwy hyderus ac mewn nifer o achosion yn dangos eu bod yn defnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol i wella eu gwasanaethau.

Mae cartrefi gofal o ansawdd da ar gael ar gyfer oedolion a phlant. Yn gyffredinol, mae'r sectorau hyn yn dangos eu hymrwymiad parhaus i wella gwasanaethau. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau i'r ddau sector, ac mae gormod o achosion lle nad yw darpariaeth gyson rhai o hanfodion gofal a chymorth yn ddigonol.

Mae ysgolion arbennig preswyl wedi cynnal ansawdd eu gwasanaeth. Cafwyd twf o ran y ddarpariaeth cynlluniau lleoli oedolion a gwelliant pellach yn eu hansawdd. Cafwyd gostyngiad yn nifer y gofynion a nodwyd mewn asiantaethau nyrsys. Mae asiantaethau maethu wedi gwella hefyd.

Mae nifer o ffactorau yn sail i'r gwelliant hwn. Yn fwyaf nodedig, mae perchenogaeth fwy eglur o faterion gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r fframwaith strategol trosgynnol a'r seilwaith cefnogol hefyd wedi'u sefydlu bellach. Gyda'i gilydd, dylai'r rhain ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer ysgogi gwella a datblygu yn y dyfodol.

Mae AGCC ac ASGC wedi nodi ymrwymiad a pharodrwydd cynyddol i gyflwyno newidiadau. Cafwyd tystiolaeth o'r ymrwymiad hwn ar lefel strategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy ei strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, a chan ei sefydliadau partner gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru, Cyngor Gofal Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA). Cafwyd tystiolaeth hefyd ar lefel weithredol gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a chan sefydliadau darparwyr gofal cymdeithasol cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae CLILC a'r SSIA wedi parhau i ddarparu arweinyddiaeth ymarferol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae Cyngor Gofal Cymru wedi datblygu a gweithredu safonau ar gyfer y gweithlu ac ar gyfer addysg gwaith cymdeithasol. Mae ADSS Cymru wedi cymryd camau i fod yn sefydliad ar wahân. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu penodi comisiynydd ar gyfer pobl hŷn. Gwnaed paratoadau ar gyfer integreiddio AGCC ac ASGC, ac ar 1 Ebrill 2007, cyfunwyd eu priod swyddogaethau a phwerau i ffurfio Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Yn ganolog i'r fframwaith hwn, mae pwyslais cryfach o lawer ar reoli perfformiad a systemau sicrwydd ansawdd. Mae AGCC ac ASGC wedi nodi bod mwy o sefydliadau bellach yn gwerthfawrogi pwysigrwydd rheoli a mynd i'r afael â'u perfformiad eu hunain, a sicrhau bod y camau y maent yn eu cymryd i sicrhau newidiadau yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad. Mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn, ac nid yw'n syndod felly, lle y nododd AGCC ac ASGC berfformiad gwael, y canfuwyd hefyd diffyg dealltwriaeth o ran sut mae gwasanaethau'n gweithio yn y man darparu. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, bydd yn bwysig parhau i roi sylw i systemau o'r fath, yn enwedig lle nad yw cynghorau a darparwyr wedi gweithredu a datblygu'r dulliau hyn hyd yma a lle mae ansawdd gwasanaethau'n parhau i achosi pryder. Heb systemau rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd effeithiol, ni fydd y ddealltwriaeth a'r dysgu sefydliadol sydd eu hangen i ysgogi gwellaint yn digwydd.

## Pryderon parhaus

Er gwaethaf y gwelliannau a amlinellwyd yma, mae pryderon sylweddol yn parhau o hyd. Mae'r bwlch yn lledu rhwng y rheiny sy'n gwneud yn dda a'r rheiny sy'n gwneud yn wael. Mae disgwyliadau newidiol y cyhoedd yn golygu bod angen ymestyn ymhellach hefyd.

Mae prosesau craidd fel asesu, cynllunio gofal ac adolygu yn parhau i fod yn annerbyniol o anghyson. Mae'r rhain yn ganolog i allu awdurdodau lleol i hyrwyddo annibyniaeth ac amddiffyniad defnyddwyr gwasanaeth o bob oedran. Maent yn sicrhau bod y pwyslais ar yr unigolyn, ac ar fodloni eu hanghenion a chyflawni canlyniadau da ar eu cyfer hwy, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Achos pryder sylweddol yw'r diffyg cynnydd mewn gormod o wasanaethau unigol o ran bodloni rhai gofynion sylfaenol iawn i sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu hamddiffyn ac yn derbyn y gofal sylfaenol a'r parch y maent yn eu haeddu.

Mae'n rhaid i'r awdurdodau hynny nad ydynt yn gwneud cystal, ddefnyddio'r ystod well o ddangosyddion perfformiad craidd, yn ogystal â dangosyddion a phrosesau lleol, i fonitro a gwella eu perfformiad. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddysgu gan y rheiny sy'n gwneud yn well. Mae angen mwy o ymrwymiad i rannu gwybodaeth a dysgu gan y rheiny sy'n gwneud orau. Nid yw parodrwydd i gymharu â phrofi eu perfformiad yn erbyn eraill yn rhan sylfaenol eto o'r ffordd y mae sefydliadau'n gweithio.

Mae adroddiad ASGC yn nodi amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn oedolion. Mae'n amlwg bod ymagwedd amrywiol tuag at amddiffyn oedolion ledled Cymru. Mae angen rhoi sylw i hyn ar frys. Mae mannau lle mae pwysau arbennig i'w gweld hefyd. Mae'n achos pryder bod 61% o'r ymchwiliadau amddiffyn oedolion mewn cartrefi gofal yn ymwneud â chartrefi sydd â gofal nyrsio, yn enwedig gan mai 25% yn unig o'r sector mae'r cartrefi hyn yn ei gynrychioli. Mae defnyddwyr gwasanaeth mewn cartrefi gofal gyda nyrsio ymhlith y bobl mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, ac mae'n rhaid i'r mater hwn fod yn ganolog i waith y darparwyr eu hunain a'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol sy'n comisiynu gofal o'r fath.

Mae awdurdodau lleol a darparwyr rheoledig yn parhau i ymdrechu i fynd i'r afael â rheoli'r gweithlu, cynllunio ac mewn rhai achosion, sicrhau bod ganddynt ddigon o staff. Er y gwnaed rhai gwelliannau o ran hyfforddi staff a'u galluogi i ennill cymwysterau priodol, mae gormod o ofynion o hyd ynglŷn â hyfforddiant, rheoli staff, lefelau staffio, gweithdrefnau archwilio priodol, a goruchwylio a gwerthuso staff. Mae hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau rheoledig ac i awdurdodau lleol. Gwnaed gofynion ynglŷn ag addasrwydd staff mewn pedwar deg pump y cant o'r adroddiadau ar gartrefi gofal. Mae hyn yn annerbyniol ac yn rhoi pobl agored i niwed mewn perygl.

Mae cynnydd yn cael ei wneud ar y fframwaith i gefnogi anghenion hyfforddi. Mae angen trosi hyn yn fwy effeithiol bellach i reoli'r gweithlu. Mae angen i awdurdodau lleol ymestyn swyddogaeth Partneriaethau Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (PDGGC) y tu hwnt i gynllunio a rheoli'r gweithlu fel a nodwyd yn *Cynllunio ar gyfer Gofal* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003). Mae'n rhaid i gartrefi plant ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd trwy'r partneriaethau hyn i sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â'r rheoliadau newydd ar gyfer cartrefi plant. Mae angen i'r partneriaethau DGGC ystyried ymhellach sut y gallant sicrhau bod gweithlu sefydlog, diogel, cymwys, medrus ac a gefnogir yn dda yn cael ei recriwtio ac, yn arbennig, ei gadw.

Ar lefel leol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr ddarganfod ffyrdd o sefydlogi arweinyddiaeth a rheolaeth reng flaen. Y swyddi allweddol hyn yw'r cyfrwng ar gyfer datblygu a chynnal gwell arfer. Mae gormod o symud ac ansefydlogrwydd ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i reolwyr rheng flaen gael eu cefnogi gan eu cyflogwr. Mae'n rhaid iddynt gael eu galluogi a'u cefnogi i wneud eu swyddi a darparu'r arweinyddiaeth broffesiynol sydd ei hangen ar eu staff a defnyddwyr gwasanaeth.

## Disgwyliadau newidiol

Fodd bynnag, mae'r her yn mynd ymhellach o lawer na gwella gwasanaethau presennol. Mae disgwyliadau'r cyhoedd yn datblygu'n gyflym. Mae pawb ohonom yn disgwyl i'r gwasanaethau yr ydym yn eu defnyddio fod ar gael a bod gennym reolaeth drostynt, a bydd ein disgwyliadau'n cynyddu yn hyn o beth. Mae gofal cymdeithasol wedi bod yn arloesol o ran cynnwys dinasyddion. Ond bydd ein holl ddisgwyliadau am wasanaeth '*a ddarperir pan fy mod ei angen, mewn ffordd yr wyf yn ei rheoli ac mewn cyd-destun lle y gallaf herio penderfyniadau a wnaed gan y darparwr*', yn mynnu bod gwasanaethau'n datblygu arweinyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth i lefel newydd. Mae enghreifftiau blaengar o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cyflawni swyddogaeth ganolog wrth sicrhau newidiadau. Dylid rhannu'r rhain a'u datblygu'n fwy eang.

Mae hyn oll yn digwydd yng nghyd-destun newid demograffig sylweddol. Rydym yn byw yn hirach ac yn goroesi salwch mewn ffordd nad oedd yn bosib i genedlaethau blaenorol. Er bod hyn yn newyddion da ar gyfer gofal cymdeithasol, mae'n debygol o olygu mwy o alw am ofal anffurfiol a ffurfiol a llai o allu i'w ddarparu.

Mae'n rhaid i'r ymateb i her ddeublyg gwelliannau cyson a disgwyliadau newidiol fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o strwythur gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae cyfansoddiad y maes gofal cymdeithasol wedi newid yn sylfaenol. Nid yw gofal cymdeithasol yn wasanaeth a ddarperir yn genedlaethol. Nid yw awdurdodau lleol wedi bod yn brif ddarparwyr gofal cymdeithasol ers tro bellach. Eleni adroddodd ASGC am newidiadau parhaus ac arwyddocaol o ran proffil y sector. Mae safle blaenllaw'r sector preifat wedi'i gynnal, gydag 86% o gartrefi gofal, dwy ran o dair o gartrefi plant a chanran gynyddol o oriau

gofal cartref i gyd yn eiddo i'r sector preifat. Adlewyrchir hyn mewn gweithlu sydd wedi newid, gyda thua 40,000 o'r gweithlu o 70,000 yn cael eu cyflogi yn y sector annibynnol, sy'n breifat yn bennaf. Rydym hefyd wedi gweld mwy o ddarparwyr graddfa fawr yn symud i'r sector, er bod strwythur y ddarpariaeth yn amrywiol iawn ledled Cymru.

Mae goblygiadau pwysig yn deillio o'r newidiadau hyn ar lefel genedlaethol a llywodraeth leol. Mae'r rhain yn effeithio ar y rheiny sy'n llunio polisïau, cynllunwyr, comisiynwyr, darparwyr ac arolygwyr.

Felly mae agenda polisi heriol ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae'r fframwaith yn bodoli, ond mae'r angen yn parhau i'w gefnogi trwy ddatblygu polisïau manwl mewn meysydd allweddol. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys gwaith ar arweinyddiaeth, comisiynu, contractio, cynllunio unigol, gofal unigol ac amddiffyn oedolion. Mae *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* yn amlinellu'r agenda ar gyfer newid sydd ei angen bellach. Bydd llwyddiant y fframwaith yn dibynnu'n helaeth ar ba un a fydd y polisïau hyn yn cael eu gwireddu ar gyfer y gwasanaeth yn gyffredinol. Bydd yr adolygiad tymor hwy o ariannu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn allweddol bwysig hefyd.

## Ateb yr her

Mae angen yn awr, yn fwy nag erioed, i awdurdodau lleol ddangos arweinyddiaeth broffesiynol gref ac effeithiol ar draws gofal cymdeithasol drwy sicrhau bod pob cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni'r swyddogaeth a amlinellwyd yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*. Mae'r cyd-destun newidiol yn gosod pwyslais cryfach fyth ar bwysigrwydd arweinyddiaeth, rheolaeth ac atebolrwydd clir o ran gwasanaethau cymdeithasol mewn llywodraeth leol. Mewn rhai awdurdodau lleol mae angen o hyd am fwy o ymrwymiad corfforaethol a sylw i'r gwasanaethau cymdeithasol. Er bod rheoliadau a chanllawiau clir ynghylch atebolrwydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae anghysondeb o ran gweithredu'r gofynion hyn. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod mewn sefyllfa i gyflawni'r cyfrifoldebau statudol sy'n gysylltiedig â'r swydd a darparu arweinyddiaeth broffesiynol gref ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mewn rhai awdurdodau, ac yn aml yn y rhai hynny sy'n cael trafferth i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran gwasanaethau cymdeithasol, mae diffyg eglurder ynglŷn â'r atebolrwydd hwn. Mae'n rhaid i ADSS Cymru hefyd gyflawni swyddogaeth bwysig drwy arddangos llais cryf, cyfunol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Mae'n rhaid i arweinyddiaeth estyn ar draws y sector. Mae'n rhaid i gyflogwyr preifat a gwirfoddol fynd i'r afael â'r heriau ac ystyried sut y gallant hwy hefyd gyfrannu ymhellach at arweinyddiaeth y sector, ar y cyd ac yn unigol. Mae'r gallu i arwain a rheoli o fewn gwasanaethau yn ganolog i welliant. Mae angen iddynt sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion newidiol a disgwyliadau cynyddol er mwyn darparu gofal sy'n bodloni anghenion pobl. Bydd hyn yn sicrhau bod y darparwyr eu hunain yn bartneriaid rhagweithiol ac adeiladol yn y rhaglen gyffredinol o wella a newid.

Her allweddol sy'n wynebu llywodraeth leol yw cryfhau comisiynu a chontractio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod patrwm y ddarpariaeth sydd ei hangen yn bodloni anghenion ei dinasyddion presennol ac yn y dyfodol. Heb hyn, bydd ffurf a natur darparu gwasanaethau, yn enwedig i oedolion, yn cael eu pennu gan rymoedd y farchnad.

Mae'r newid o ran cyfansoddiad gofal cymdeithasol yn amlygu nid yn unig swyddogaeth ganolog gweithdrefnau asesu o ansawdd da, ond mae hefyd yn gosod cynllunio gofal a rheoli gofal, a ddefnyddir i oruchwylio anghenion defnyddwyr gwasanaeth unigol yn barhaus, wrth wraidd cyfrifoldebau llywodraeth leol. Mae rheoli gofal yn effeithiol wedi bod yn broblem yn rhy aml. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysicach fyth bod y materion hyn yn cael eu datrys.

Mae angen perchenogaeth glir o'r agenda gan gomisiynwyr a darparwyr er mwyn gwella. Hwy sy'n atebol am berfformiad ac ansawdd eu gwasanaethau a'r gwasanaethau y maent yn eu comisiynu. Mae newidiadau o ran rheoleiddio ac arolygu wedi ceisio atgyfnerthu hyn drwy weithio'n gynyddol mewn ffyrdd sy'n cryfhau sbarduno newid mewn sefydliadau. Nid yw'r gred yn y disgwyliad traddodiadol bod newid yn digwydd yn bennaf o ganlyniad i bwysau allanol, wedi bod yn gynorthwyol.

Mae angen i reoleiddio ac arolygu gyflawni swyddogaeth gryfach o ran ystyried a gwneud sylwadau ar brofiad uniongyrchol defnyddwyr gwasanaeth o'r gwasanaeth a ddarperir, ac o ran trosi hyn yn wybodaeth y gall y rheiny sy'n llunio polisïau yn genedlaethol ac yn lleol ei defnyddio i gyflwyno newidiadau. Er enghraifft, fel rhan o weithredu diwygio rheoleiddio o fis Ebrill 2006, mae ASGC wedi gosod mwy o bwyslais ar hunanasesu er mwyn cyflawni ymagwedd fwy cymesur, gan dargedu adnoddau lle y mae'r mwyaf o angen amdanynt. Yn wir, mae rheoliadau newydd wedi gosod gofyniad ar leoliadau a reoleiddir i fabwysiadu dull o'r fath. Mae AGGC hefyd wedi datblygu cylch gorchwyl hunanasesu ymhellach yn yr ymarfer gwerthuso perfformiad blynyddol ac fel rhan o gydadolygiadau ac adolygiadau gwasanaeth. Mae'r ymagwedd hon, sy'n pwysleisio cyfrifoldeb darparwyr a chynghorau eu hunain dros welliant ac ansawdd, yn dibynnu ar systemau rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd sydd wedi'u sefydlu'n llawn.

Mae ein profiad o unrhyw wasanaeth wedi'i seilio ar y person sy'n ei ddarparu i ni. Er bod y materion cyfundrefnol, strwythurol a diwylliannol yn ganolog, ni fyddant yn effeithiol oni bai bod arfer o ansawdd uchel yn cael ei hybu a'i gefnogi. Mae angen mwy o bwyslais ar greu proffil uwch ar gyfer arfer - yr hyn sy'n gweithio, sut y lledaenir gwybodaeth am brofiadau da a sicrhau ein bod yn clodfori gwaith uniongyrchol o ansawdd uchel ag unigolion. Rydym wedi gweld perthynas uniongyrchol rhwng y sefydliadau hynny sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi arfer rheng flaen, a pherfformiad o ansawdd da. Mae angen gwneud defnydd ehangach o lawer o'r wybodaeth sylweddol am yr hyn sy'n gweithio, sydd ar gael trwy'r Sefydliad Gofal Cymdeithas er Rhagoriaeth.

Byddai'n fuddiol i gyflogwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol ystyried Codau Ymarfer y Cyngor Gofal wrth feddwl am sut i fynd i'r afael â gwella arfer ym mhob lleoliad. Mae'r Codau hyn yn ganolog i ddarparu gwasanaethau sy'n hybu urddas, parch, annibyniaeth a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth, ac yn hyrwyddo sylfaen werthoedd gref ar gyfer pawb sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Rwyf yn croesawu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor eleni i hybu'r Codau ymhlith defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eu hunain, a byddaf yn chwilio am dystiolaeth fod y Codau'n cael eu sefydlu ar draws pob gwasanaeth i gefnogi'r llwybr tuag at wella.

## Gweithio mewn partneriaeth

Ni fydd un sefydliad neu sector ar ei ben ei hun yn gallu ateb yr her ar gyfer gwella gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd cydweithio a phartneriaeth fel sail ar gyfer gwelliant a gallu, yn enwedig ar draws awdurdodau lleol. Mae enghreifftiau hefyd o wasanaethau ar y cyd arloesol ledled Cymru. Cefnogir rhai o'r datblygiadau calonogol hyn gan yr AGGC (Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae llawer o fanteision yn gysylltiedig â dulliau ar y cyd o'r fath rhwng awdurdodau.

Atgyfnerthir yr ymagwedd hon ymhellach trwy greu Byrddau Gwasanaeth Lleol, ac mae eisoes yn amlwg ym mhob ardal bod y Byrddau hyn wedi nodi materion gofal cymdeithasol fel blaenoriaeth.

Mae cydweithio a phartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr yn fwy cyfyngedig. Lle mae hyn yn bodoli, er enghraifft trwy Bartneriaethau Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (PDGGC) a arweinir gan bob awdurdod lleol, mae tystiolaeth ei fod yn cryfhau gallu yn sylweddol a bod gwelliant wedi cychwyn. Mae'r partneriaethau hyn a'r partneriaethau gweithlu rhanbarthol yn darparu model ar gyfer gwaith traws-sector mewn meysydd eraill.

Mae angen i ofal cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cymunedol, tai, addysg ac, wrth gwrs, gwasanaethau iechyd. Yn aml gellir priodoli llwyddiannau i rwydwaith o gysylltiadau. Mae cydweithio a phartneriaeth yn ganolog i reoli pwysau yn y system ofal. Gallant helpu i fynd i'r afael ag oedi o ran trosglwyddo gofal a lleoliadau amhriodol ac ansefydlog ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal ag oedi o ran darparu gofal seibiant a chartref, a chymhorthion ac addasiadau sy'n hybu annibyniaeth. Nid yw'r strategaeth sy'n seiliedig ar atal yn bosibl heb amrywiaeth o bartneriaethau.

Nid yw rhai o'r sbardunau ar gyfer newid o fewn gofal cymdeithasol ei hun. Mae angen gwell dealltwriaeth o ofal cymdeithasol yng nghyd-destun y gymuned a datblygu economaidd, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cynrychioli mwy na 5% o weithlu Cymru. Mae hyn yn golygu ei fod yn sector cyflogaeth pwysig y mae'n rhaid ei adlewyrchu yn y strategaethau lleol a chenedlaethol hynny.

Mae AGGCC, fel arolygiaeth newydd, yn rhan annatod o'r fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Bydd ei chwmpas estynedig a'i gweledigaeth ehangach yn gwneud cyfraniad pwysig at barhau i wella, datblygu a moderneiddio gofal cymdeithasol.

Bydd ganddi lais cryfach yn seiliedig ar ymagwedd ehangach a mwy cynhwysfawr at reoli gwybodaeth, a bydd yn gallu gweithredu fel pont rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau. Bydd yn datblygu'r gwaith a wnaed gan ei rhagflaenwyr, AGGC ac ASGC, i foderneiddio rheoleiddio, arolygu ac adolygu, er mwyn canolbwyntio ar wasanaethau nad ydynt yn llwyddo cystal, a materion hollbwysig yn ogystal ag annog gwella.

## Casgliad

Mae 2006-07 wedi bod yn flwyddyn o gynnydd, ond mae gwasanaethau'n dal i fod yn annerbyniol o anghyson. Cafwyd gwelliannau, a chroesewir y rhain. Maent yn adlewyrchu gwaith caled ac ymrwymiad llawer o bobl. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth presennol a rhai'r dyfodol yn gallu dibynnu ar wasanaethau sy'n ddiogel ac sy'n hybu eu hurddas a'u hannibyniaeth.

Mae sector gofal cymdeithasol arbennig yn dechrau dod i'r amlwg yng Nghymru. Mae'n datblygu llais mwy hyderus sy'n hybu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Mae'n gweithio i wella ei allu, ei effeithiolrwydd a'i ansawdd. Mae angen i'r fframwaith newydd ddangos ei effaith tymor hir ar wella, ond mae'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru bellach yn amlwg ac yn ddiffiniadwy. Mae nifer o sbardunau arwyddocaol wedi'u sefydlu i ysgogi newidiadau, gwelliannau a chodi safonau gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yr her yw sicrhau ein bod yn achub ar y cyfleoedd hyn.

## Swyddfeydd Rhanbarthol AGGCC

**Swyddfa Rhanbarthol Gogledd-orllewin Cymru**
Adeiladau'r Llywodraeth
Ffordd Dinerth
Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn LL28 4UL
**Ffôn:** 01492 542580 **Ffacs:** 01492 542569
**E-bost:** cssiw.nw@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Ranbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru**
Tŷ Broncoed
Parc Busnes Broncoed
Ffordd Wrexham
Yr Wyddgrug CH7 1HP
**Ffôn:** 01352 707900 **Ffacs:** 01352 707905
**E-bost:** cssiw.ne@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Ranbarthol Canolbarth Cymru**
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod LD1 5HA
**Ffôn:** 01597 829319 **Ffacs:** 01597 824375
**E-bost:** cssiw.mid@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Ranbarthol De-ddwyrain Cymru**
6ed Llawr
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pwl
Tor-faen NP4 6YB
**Ffôn:** 01495 761200 **Ffacs:** 01495 761239
**E-bost:** cssiw.se@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Ranbarthol Caerdydd**
1 Alexandra Gate
Ffordd Pengam
Tremorfa
Caerdydd CF24 2SA
**Ffôn:** 029 2047 8600 **Ffacs:** 029 2047 8614
**E-bost:** cssiw.cdf@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Ranbarthol Y Fro a'r Cymoedd**
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ
**Ffôn:** 01443 848527/28/29
**Ffacs:** 01443 848526
**E-bost:** cssiw.vv@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Ranbarthol De-orllewin Cymru**
Uned C, Cam 3,
Pentref Busnes Tawe
Ffordd Phoenix
Parc Menter Abertawe
Abertawe SA7 9LA
**Ffôn:** 01792 310420 **Ffacs:** 01792 313038
**E-bost:** cssiw.sw@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Ranbarthol Gorllewin Cymru**
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin SA31 3BT
**Ffôn:** 01267 223402 **Ffacs:** 01267 242924
**E-bost:** cssiw.ww@wales.gsi.gov.uk

## Swyddfeydd Lleol AGGCC

**Swyddfa Leol Gogledd-orllewin Cymru**
Adeiladau'r Llywodraeth
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd LL55 1EP
**Ffôn:** 01286 662300 **Ffacs:** 01286 662301
**E-bost:** cssiw.nw@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Leol Canolbarth Cymru**
Adeiladau'r Goron
Stryd Northgate
Aberystwyth SY23 2JS
**Ffôn:** 01970 653860 **Ffacs:** 01970 653869
**E-bost:** cssiw.mid@wales.gsi.gov.uk

**Swyddfa Leol Gorllewin Cymru**
Llawr 1af
Tŷ Winchway
Lôn Winch
Hwlffordd SA61 1RS
**Ffôn** 01437 761300 **Ffacs:** 01437 768388
**E-bost:** cssiw.ww@wales.gsi.gov.uk

## Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC

**AGGCC**
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
**Ffôn:** 01443 848450 **Ffacs:** 029 2082 3417
**E-bost:** aggcc@cymru.gsi.gov.uk

**AGGCC**
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ
**Ffôn:** 01443 848450 **Ffacs:** 01443 848472
**E-bost:** aggcc@cymru.gsi.gov.uk

## Copïau ychwanegol

Mae copïau ychwanegol o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill pe byddai angen. Mae fersiynau sain o'r adroddiad a data sy'n ymwneud â'r graffiau a'r siartiau hefyd ar gael.

Cysylltwch ag:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw
CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848450
Ffacs: 01443 848472
E-bost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk

## Cyfeiriad gwefan

www.aggcc@cymru.gsi.gov.uk